Rhent, tâl gwasanaeth a rheoli fy arian

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Rhent, tâl gwasanaeth a rheoli fy arian

RHENT

Polisi pennu'r rhent

Ein nod yw pennu rhent a thâl gwasanaeth mor isel â bo modd tra'n gwneud yn siŵr fod gennym ni ddigon o arian yn dod i mewn i ddarparu gwasanaethau o ansawdd.

Pan fyddwch chi'n dechrau eich tenantiaeth dangosir swm y rhent sy'n daladwy yn eich cytundeb tenantiaeth. Mae hyn yn cwmpasu cost darparu eich cartref a'r gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn, gan gynnwys unrhyw waith trwsio a chynnal a chadw.

Nid yw eich rhent yn cynnwys costau dŵr, nwy, trydan, trwydded teledu, y Dreth Cyngor nac yswiriant cynnwys eich cartref oni bai bod hyn wedi ei nodi'n benodol yn eich cytundeb tenantiaeth.

Ein nod yw:

- Cwmpasu costau darparu gwasanaethau ansawdd uchel, yn cynnwys gwaith trwsio a chynnal a chadw yr eiddo a rheoli'r tenantiaethau
- Ad-dalu unrhyw fenthyciadau tuag at gost gwreiddiol darparu ein cartrefi, dros gyfnod rhesymol
- Cadw rhenti ar lefel fforddiadwy
- Ail-fuddsoddi unrhyw incwm dros ben a gynhyrchir yn ein cartrefi

Tenantiaid Aswiriedig, dechreuol a thenantiaid aswiriedig byrlys

Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas sydd â chyfrifoldeb am bennu lefel y rhent i'r holl denantiaethau a grëwyd ar ôl 15 Ionawr 1989, a gwneir hyn yn flynyddol. Gall y Gymdeithas gynyddu neu leihau'r rhent ar eich cartref, ond ni fydd yn cynyddu'r rhent yn uwch na'r meincnod a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Weithiau, os ydych yn byw mewn eiddo Tai â Chefnogaeth, mae eich Darparwr Cefnogaeth yn anfon adolygiad rhent blynyddol ynghylch rhent a thaliadau gwasanaeth.

Tenantiaid Diogel

Yn achos y rhai sydd wedi bod yn denantiaid y Gymdeithas ers cyn 15 Ionawr 1989 mae trefniadau gwahanol, a Gwasanaeth y Swyddog Rhent lleol ac nid y Gymdeithas sy'n pennu'r rhent. Yn achos Tenantiaid Diogel caiff y Gymdeithas wneud cais am adolygu'r rhent bob dwy flynedd yn unig.

Os ydych chi'n derbyn budd-dal neu gredyd cynhwysol tai bydd angen i chi ddweud wrth y Cyngor neu'r Adran Gwaith a Phensiynau am unrhyw newidiadau i'ch rhent neu dâl gwasanaeth fel y gallant ailasesu faint o fudd-dal sy'n ddyledus. Fe wnawn ni hysbysu'r Cyngor am newidiadau ar ran y tenantiaid hynny sydd wedi trefnu i'r budd-dal tai gael ei dalu i ni'n uniongyrchol. Yn yr un modd, os oes gennym Drefniadau Talu Amgen, fe wnaiff yr Adran Gwaith a Phensiynau anfon taliadau yn uniongyrchol i ni.

Sut fyddwch chi'n gadael i mi wybod?

Byddwn yn eich helpu i ymdopi efo'ch taliadau rhent a rydym yn addo:

- Anfon datganiad rhent atoch yn rheolaidd, ac ar eich cais
- Rhoi isafswm o 28 diwrnod o rybudd am unrhyw newid i'ch rhent
- Rhoi eich enw mewn het am wobr chwarterol os ydych chi'n talu'n brydlon ac yn cadw eich cyfrif yn glir
- Eich helpu i wneud cais am fudd-dal tai neu gredyd cynhwysol ac unrhyw fudd-daliadau eraill y gallech chi fod â'r hawl iddynt
- Eich cyfeirio at wasanaethau cyngor a chefnogaeth eraill

Mae croeso i chi ofyn i ni am wybodaeth am sut y pennir ein rhenti â'n taliadau gwasanaeth.

Bydd eich datganiad rhent yn nodi'r holl daliadau rhent i'ch cyfrif chi.

Beth yw tâl gwasanaeth?

Tâl gwasanaeth yw tâl sy'n daladwy i'r Gymdeithas tuag at gost darparu a chynnal gwasanaethau i ardaloedd cymunedol a rennir gydag eraill. Cyfeiriwch at eich cytundeb tenantiaeth. Mae tâl gwasanaeth yn dâl sy'n ychwanegol at eich rhent wythnosol.

Pa wasanaethau y codir tâl amdanynt?

Dyma'r mathau o wasanaethau rydym ni'n eu darparu lle gallai tâl gwasanaeth fod yn daladwy:

- Cynnal a chadw gerddi cymunedol – lawntiau, llwyni, coed, clirio sbwriel
- Offer cymunedol – e.e. lifft, system larwm tân
- Goleuadau a gwresogi cymunedol
- Glanhau mannau mewnol cymunedol
- Offer arbenigol e.e. hoist, cadair esgyn mewn cartrefi unigol, gyda chaniatâd y tenant - sy'n derbyn yr angen i godi tâl am gynnal a gwasanaethu'r offer. Ni fydd Budd-dal tai yn talu am y gost benodol hon.

Beth yw tâl gwasanaeth amrywiol?

Mae'r Gymdeithas yn gweithredu cynllun tâl gwasanaeth amrywiol. Golyga hyn ein bod ni'n adolygu'r tâl gwasanaeth rydych chi'n ei dalu bob blwyddyn a thrwy hynny yn sicrhau eich bod chi'n talu am wir gost y gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn yn unig. Mae'r tâl gwasanaeth wedi'i seilio ar amcangyfrif o gost y gwasanaeth yn 3 mlynedd flaenorol (hyn yn bodoli ers Ebrill 2018).

Byddwn yn rhoi isafswm o 28 diwrnod o rybudd am unrhyw gynnydd neu leihad yn y tâl gwasanaeth. Gellir newid tâl gwasanaeth mwy nag unwaith y flwyddyn os oes angen.

Amrywio neu gyflwyno tâl gwasanaeth newydd

Ceidw'r Gymdeithas yr hawl i amrywio taliadau gwasanaeth sy'n bodoli eisoes neu gyhoeddi cynigion i gyflwyno tâl am wasanaethau newydd o dro i dro, ond bydd yn ymgynghori â'r holl denantiaid y bydd hyn yn effeithio arnynt cyn gwneud hyn. Mae Deddfau Landlord a Thenant 1985 a 1987 (wedi'u diwygio) yn cynnwys canllawiau statudol ac yn gosod amodau y mae'n rhaid i'r holl Landlordiaid Cofrestredig eu dilyn wrth ymgynghori â thenantiaid. Dylid cyfeirio at ein Polisi Tâl Gwasanaeth am fwy o wybodaeth.

Rheoli fy arian

Mae'n bwysig eich bod chi'n talu eich rhent ar amser gan fod yr arian rydym ni'n ei dderbyn yn talu am y gwasanaethau a ddarparwn i chi. Felly mae'n rhaid i chi gyllidebu'n dda a sicrhau eich bod yn ein talu pan fo'n ofynnol. Gallwn drefnu i'n Tîm Lles ymweld â chi i'ch helpu gyda hyn.

Faint a pha mor aml mae angen i mi dalu fy rhent?

Er mwyn osgoi mynd i ddyledion rhent mae angen i chi sicrhau fod eich taliad am yr wythnos sy'n dod yn ein cyrraedd ni ar neu cyn y dydd Llun pan fo'n ddyledus. Felly anogir y rhai â thenantiaeth wythnosol i dalu'n wythnosol, a'r rhai â thenantiaeth misol i dalu ar ddiwrnod cyntaf y mis. I'r rheini lle dechreuodd eu tenantiaeth yng nghanol yr wythnos, byddwn yn cyfrifo beth yw'r swm sy'n ddyledus a'i ychwanaegu at rhent yr wythnos ganlynol.

Mae'n dderbyniol i denantiaid dalu bob pythefnos, bob pedair wythnos neu'n fisol ymlaen llaw, cyn belled ag y bo'r taliad yn cael ei wneud cyn dechrau'r cyfnod lle mae'n ddyledus.

Sut ydw i'n talu'r rhent?

Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr fod eich rhent yn cael ei dalu ar amser, os ydych chi'n derbyn credyd cynhwysol, budd-dal tai neu'n talu'r rhent eich hun.

Rydym am ei gwneud mor rhwydd a hyblyg â phosibl i chi dalu eich rhent, gan ddewis o blith yr opsiynau isod:

- Debyd Uniongyrchol. Mae'n hawdd trefnu hyn drwy ffonio'r Gymdeithas neu fynd i'n gwefan
- Mewn unrhyw Swyddfa Bost neu safle sy'n arddangos yr arwydd Pay Point, gan ddefnyddio'r cerdyn talu a roddwyd i chi
- Talu ar-lein: www.grwpcynefin.org
- Talu efo cerdyn debyd ar 0300 111 2122
- Talu yn swyddfeydd y Gymdeithas, drwy alw heibio neu anfon siec yn y post
- 'Ap' Allpay

Mae'n bwysig peidio anfon arian parod drwy'r post.

Os ydych chi'n penderfynu talu drwy ddebyd uniongyrchol bob wythnos, caniateir i chi dalu ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos, cyn belled a bod y taliad yn cael ei wneud cyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

Sut ydw i'n cadw llygad ar y taliadau?

Lle bynnag a phryd bynnag rydych chi'n talu'r rhent byddwch yn cael derbynneb. Cadwch hon yn ddiogel gan mai dyma sy'n profi eich bod chi wedi talu. Os ydych chi'n dewis talu drwy ddebyd uniongyrchol drwy eich banc, neu gan ddefnyddio eich cerdyn debyd, bydd pob taliad yn ymddangos ar eich datganiad banc. Hefyd rydych yn cael sicrwydd drwy dderbyn datganiadau rhent gennym ni sy'n rhestru'r holl daliadau a wnaed.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n talu'r rhent?

Dyledion rhent yw'r term a ddefnyddiwn am unrhyw rent nad ydych chi wedi ei dalu i ni. Os oes rhent yn ddyledus cysylltwch â ni ar unwaith i esbonio pam a bydd hyn yn rhoi cyfle i ni drafod y sefyllfa gyda chi. Byddwn yn gwneud yr hyn a fedrwn i'ch helpu i dalu'r dyledion rhent. Gallwn drafod a chytuno ar drefniant rhesymol i dalu'r hyn sy'n ddyledus dros gyfnod penodol. Bydd hyn wedi ei seilio ar yr hyn rydych chi'n medru fforddio ei dalu.

Os ydych chi'n caniatáu i'r dyledion rhent gynyddu byddwch yn torri eich Cytundeb Tenantiaeth. Bydd gan y Gymdeithas yr hawl i gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn, a gallai hyn arwain at golli eich cartref. Bydd rhaid i chi barhau i dalu'r dyledion rhent a bydd rhaid i chi dalu unrhyw gostau llys a godir ar y Gymdeithas.

Rydw i'n meddwl fod y balans ar fy nghyfrif yng anghywir, beth fedra' i ei wneud?

Os ydych chi'n credu fod rhywbeth yn anghywir, cysylltwch â ni yn syth. Fe wnawn ni wirio'r cofnod taliadau a'r symiau a dalwyd, ynghyd ag unrhyw gredyd cynhwysol neu fudd-dal tai y gallech ei hawlio. Fe wnawn ni esbonio wrthych chi sut mae'r dyledion rhent wedi digwydd. Os gwnaed camgymeriad fe wnawn ni ei gywiro ar unwaith a newid eich cyfrif.

Beth os ydw i'n cael problemau talu fy rhent?

Cysylltwch â ni ar unwaith os ydych chi'n cael problemau gwirioneddol i dalu eich rhent. Peidiwch anwybyddu'r broblem, mae'n well trafod gyda ni yn hytrach na meddwl y gwnaiff y broblem ddiflannu.

Efallai y bydd angen i chi gysylltu â ni os ydych chi'n rhagweld problemau oherwydd newidiadau i'ch incwm. Mae'n bosibl y byddwn ni'n medru rhoi cyngor a gwybodaeth i'ch helpu i oresgyn yr anawsterau ariannol rydych chi'n eu hwynebu.

Gallwch ofyn i ni am gopi o'n Polisi Dyledion Rhent hefyd.

Mae gennym Dîm Lles ac fe all y swyddog ddod i'ch gweld a'ch helpu i fanteisio ar y budd-daliadai sy'n daladwy i chi.

Cymorth gyda chostau tai

Gall Credyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai gynorthwyo gyda chostau rhent os nad ydych yn gweithio neu ar incwm isel.

Caiff Credyd Cynhwysol ei dalu'n wahanol i fudd-daliadau eraill. Fe'i telir unwaith y mis, i mewn i'ch cyfrif banc yn arferol. Mae swm y Credyd Cynhwysol y gallwch ei dderbyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch incwm. Gall gynnwys cymorth tuag at eich costau rhent. Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol, mae angen i chi dalu eich rhent yn uniongyrchol i'r Gymdeithas. Os ydych yn byw gyda'ch partner, ac mae'r ddau ohonoch yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch yn derbyn un taliad ar gyfer y ddau ohonoch.

Rhaid i chi hawlio Credyd Cynhwysol ar-lein a byddwch yn derbyn eich taliad cyntaf gan yr Adran Gwaith a Phensiynnau tua 6 wythnos ar ôl gwneud cais ar-lein os yw eich cais yn llwyddiannus.

Mae Credyd Cynhwysol yn raddol yn cymryd lle Budd-dal Tai, a dim ond un o'r ddau y gallwch ei dderbyn.

Gellir hawlio Budd-dal Tai mewn person neu ar-lein drwy eich Swyddfa Cyngor lleol.

Gallech hefyd hawlio gostyngiad yn y dreth cyngor ac mae'n rhaid i chi wneud cais am hyn drwy eich Cyngor lleol.

Os ydych chi'n tybio eich bod yn gymwys i gael budd- dal tai a budd-dal treth cyngor, neu am gael cyngor cyffredinol ar faterion rhent a materion ariannol eraill, cysylltwch â ni ac fe wnawn ein gorau i roi cymorth i chi. Y dewis arall yw cysylltu â'ch Cyngor lleol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r rhifau ffôn yn y rhestr manylion cyswllt defnyddiol yn yr adran 'Gwasanaethau Cefnogaeth Ychwanegol a Manylion Cyswllt Defnyddiol'.

Os ydi credyd cynhwysol neu fudd-dal tai yn talu y cyfan neu gyfran o'ch rhent, mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflenni adolygu budd-dal tai yn gywir a'u dychwelyd yn syth, neu gyda chredyd cynhwysol, gwneud cais ar lein. Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau mae gennym ni staff i'ch helpu i lenwi'r ffurflenni hyn a'ch helpu efo unrhyw ymholiadau.

Unwaith eich bod chi'n derbyn budd-dal tai neu gredyd cynhwysol mae'n rhaid ein hysbysu ni a'ch Cyngor lleol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau am unrhyw newid yn eich amgylchiadau ar unwaith, oherwydd gallai newidiadau o'r fath effeithio ar swm y budd- dal tai neu gostau tai y byddwch yn ei dderbyn. Os nad ydych chi'n datgelu'r newidiadau efallai na fyddwch chi'n derbyn eich hawliad cywir.

Golyga hyn y gallech chi fod â'r hawl i fwy o fudd-dal, neu o bosibl eich bod wedi derbyn gormod a allai arwain at ordaliad. Rydym ni'n cydweithio â mentrau gwrth-dwyll y Cynghorau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae'n ofynnol i ni eu hysbysu am unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i'ch hawliad chi.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i mewn dyledion oherwydd nad yw fy mudd-dal tai wedi'i dalu?

Chi sy'n gyfrifol am hawlio eich budd-dal tai a chredyd cynhwysol. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwneud cais yn syth a'ch bod yn nodi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol i brosesu'r cais. Os oes diffyg gwybodaeth gall hyn achosi oedi cyn prosesu eich cais. Felly bydd angen i chi gysylltu â swyddfa budd-dal tai y Cyngor i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl wybodaeth er mwyn i'ch cais gael ei brosesu.

Fedra' i hawlio budd-dal tai ar gyfer mwy nag un eiddo?

Na fedrwch, ni chaniateir hyn yn arferol. Fodd bynnag, os ydych chi'n denant i landlord arall ar hyn o bryd ac nad yw eich cyfnod rhybudd gyda nhw yn dod i ben tan ar ôl dechrau eich tenantiaeth gyda ni, cyn belled â'ch bod chi'n symud i'r cartref newydd yn wythnos gyntaf eich tenantiaeth fe gewch chi hawlio budd-dal tai ar y ddau gartref hyd at uchafswm o bedair wythnos. Mae hawliadau o'r fath yn ôl disgresiwn y Cyngor.

Nid yw'r cyfleuster hwn ar gael drwy'r Credyd Cynhwysol, felly bydd rhaid i chi ofalu eich bod yn hysbysu pob landlord perthnasol pan fyddwch yn symud.

Cadw'n rhydd o ddyled

Rydym ni'n gwybod fod diffyg cyfrif banc sylfaenol, a methu â chael cyngor am arian a chredyd fforddiadwy, fel Undebau Credyd, yn medru arwain at bobl yn wynebu eithrio ariannol. Yn aml mae pobl heb gyfrif banc yn cael eu gorfodi i dalu mwy i gael arian neu drefnu benthyciad. Hefyd ni allant fanteisio ar ddisgowntiau debyd uniongyrchol wrth dalu am nwy, trydan a gwasanaethau eraill. Yn aml mae'r un unigolion yn ei chael yn anodd dod o hyd i swydd.

Mae pobl heb arian neu gredyd yn cael eu hudo i fenthyca gan fenthycwyr stryd fawr sy'n codi prisiau uchel, neu'n waeth, gan fenthycwyr arian didrwydded. Cynghorwn yn gryf yn erbyn hyn a gofynnwn i chi gysylltu â ni am gyngor yn gyntaf.

Cyfrif Banc Sylfaenol

Os nad oes gennych chi gyfrif banc gallwn roi cyngor i chi lle i fynd a sut i drefnu cyfrif banc sylfaenol.

Gyda chyfrif banc o'r fath:

- nid ydych yn cael llyfr siec
- cewch dalu sieciau i mewn i'ch cyfrif am ddim
- cewch godi arian o beiriannau arian
- cewch dalu biliau drwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog

Pan yn dewis cyfrif banc gwiriwch pa fanc a pa gyfrif fyddai orau i chi. Er enghraifft, oes gennych chi:

- beiriannau codi arian yn agos at lle rydych chi'n byw neu'n gweithio?
- gangen o'r banc/cymdeithas adeiladu yn agos at lle rydych chi'n byw neu'n gweithio i'ch galluogi i dalu arian i mewn?
- y dewis i sefydlu debyd uniongyrchol neu archeb sefydlog i dalu biliau eich cartref fel biliau trydan a nwy?

Bydd rhai banciau/cymdeithasau adeiladu yn caniatáu i chi agor cyfrif hyd yn oed os yw eich sgôr credyd yn wael, er enghraifft, os oes gennych chi Ddyfarniad Llys Sirol yn eich erbyn chi.

Undebau Credyd – dull fforddiadwy o gael credyd

Cydweithfeydd ariannol nid er elw yw undebau credyd, sy'n eiddo i ac yn cael eu cynnal gan eu haelodau er budd yr aelodau. Maent yn cael eu rheoleiddio. Maent yn cynnig cyfrifon cynilo a benthyciadau sy'n rhoi gwerth am arian, ac maent yn lleol. Mae llawer o undebau credyd yn cynnig ystod o wasanaethau, yn cynnwys cyfrif cyfredol, y gellir talu eich budd-daliadau neu gyflog iddo.

Yn ddelfrydol dylech fod yn cynilo'n rheolaidd i'ch cyfrif undeb credyd cyn gwneud cais am fenthyciad. Fodd bynnag, mewn argyfwng, efallai y bydd modd i chi drefnu benthyciad heb gynilo.

- anogir aelodau i gynilo tra'n ad-dalu'r benthyciad
- byddwch yn cael difidend ar eich cynilion
- cynigir yswiriant am ddim efo pob benthyciad

Mae benthyciad gan undeb credyd yn rhatach ac yn ddiogelach na benthyciad gan fenthyciwr arian preifat h.y. benthyciwr carreg y drws. Gofynnwch i'ch Swyddog Tai am 'Cynilion a Benthyciadau Cambrian' - sef yr Undeb Credyd agosaf atoch chi.

Rydym yn gweithio gyda'r Gyfnewidfa Rhent - ffordd i ddangos eich bod yn talu'n rheolaidd, ac felly yn creu hanes credyd - fel y gallwch gael mynediad i gredyd mwy fforddiadwy. Os na hoffech rannu data hefo'r Gyfnewidfa Rhent, cysylltwch â'ch Swyddog Tai.

Credyd ar garreg y drws/ benthyciadau diwrnod cyflog

Mae'r mathau yma o gwmnïau benthyciadau yn casglu'r ad-daliadau o'ch cartref. Mae rhai yn cynnig talebau i'w gwario mewn siopau penodol, tra bo eraill yn rhoi benthyciadau arian parod i chi. Yn aml mae swm yr ad-daliadau yn gymharol fach, ond gall y cyfnodau ad-dalu fod yn hir, felly gall cyfanswm cost y benthyciad fod yn uchel iawn.

Gan fod credyd ar garreg y drws a benthyciadau diwrnod cyflog ar gael yn hawdd efallai y cewch eich temtio i ystyried y math yma o fenthyca, ond gallech ganfod eich hun mewn cylch o ddyled diderfyn yn sydyn iawn. Ceisiwch osgoi'r demtasiwn i dderbyn y math yma o gredyd a meddwl am gysylltu â'ch undeb credyd lleol yn lle. Cysylltwch â ni am gyngor.

Cyngor diduedd, am ddim, am ddyledion

Os ydych chi'n mynd i ddyledion mae'n bwysig i chi gael cyngor cyn iddynt fynd y tu hwnt i reolaeth. Peidiwch â chael eich temtio i fenthyca mwy o arian i dalu dyledion, gan y gall hyn arwain at broblemau eraill.

Edrychwch ar y dudalen manylion cyswllt defnyddiol am fanylion asiantaethau cyngor ynghylch dyledion.

Byddwch yn wyliadwrus rhag cwmnïau rheoli dyledion sy'n cynnig cyngor am ddim i chi. Yn arferol mae cwmnïau o'r fath yn adfer eu costau o'r swm misol rydych chi'n ei dalu iddynt tuag at ad-dalu eich dyledion.

Cofiwch fod gennych Swyddog Llês a all roi cyngor i chi am fudd-daliadau a'ch helpu i fanteisio ar y budd-daliadau sy'n daladwy i chi. Cysylltwch â'ch Swyddog Tai i ofyn am gymorth.

Dyledion blaenoriaeth

Mae rhai dyledion yn cael eu galw'n ddyledion blaenoriaeth ac mae'n bwysicach ymdrin â nhw nag eraill gan y gallech wynebu canlyniadau difrifol os nad ydych yn talu.

Y dyledion blaenoriaeth yw:

- Dyledion rhent – fe allech chi golli eich cartref
- Dyledion trydan a nwy – gellid diffodd eich cyflenwad
- Dyledion biliau dŵr – edrychwch ar y paragraff Biliau dŵr isod
- Treth Cyngor – gallai'r Cyngor gael gorchymyn llys er mwyn cael anfon beilïaid i gymryd dodrefn o'r cartref neu gymryd cyfran o'ch enillion oddi wrthych chi, neu fe allech chi wynebu mynd i'r carchar
- Dirwy Llys Ynadon – atafaelu gan feilïaid neu fynd i'r carchar
- Cynnal Plant – atafaelu enillion
- Trwydded deledu – dirwy llys, atafaelu gan feilïaid, mynd i'r carchar

Mae nifer o sefydliadau elusennol ar gael y medrwch wneud cais iddynt am gymorth i glirio eich dyledion. Mae llawer wedi eu seilio ar eich math o gyflogaeth, er enghraifft, os ydych chi neu aelod o'ch teulu yn neu wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

Bydd gan eich swyddfa Cyngor ar Bopeth (CAB) leol restr o elusennau o'r fath a gall eich cynghori sut i wneud cais.

Biliau dŵr

Ni chaiff cwmnïau dŵr ddatgysylltu eich cyflenwad dŵr os ydych chi mewn dyledion efo'ch biliau dŵr, ond gallant gael Dyfarniad Llys Sirol yn eich erbyn. Mae rhai cwmnïau dŵr wedi sefydlu cronfeydd ymddiriedolaethol a allai eich helpu i dalu eich biliau dŵr os ydych chi mewn trafferthion ariannol. Gofynnwch i'ch cwmni dŵr a ydynt yn rhedeg cynllun o'r fath a pha gymorth sydd ar gael i chi. Gallwn eich cynorthwyo.

Cymorth gyda'ch costau dŵr

Os ydych chi mewn dyledion gyda'ch trethi dŵr mae cronfeydd amrwyiol all eich helpu. Gellir gwneud trefniadau i glirio neu leihau'r dyledion ond rhaid gwneud hyn drwy Cyngor ar Bopeth, eich Swyddog Lles neu eich Swyddog Tai. Mae gwahanol gyfraddau ar gael os oes aelod o'ch teulu chi'n dioddef o salwch sy'n cynyddu eu defnydd dŵr .

Cymorth gyda'ch costau gwresogi

Os ydych chi'n bensiynwr neu'n cael eich ystyried yn gwsmer bregus, mae'n bosibl y bydd gennych chi hawl i gymorth ychwanegol gyda'ch biliau trydan a nwy yn ystod misoedd y gaeaf, gan gynnwys y Cynllun Disgownt Cartref Cynnes.

Beth yw'r Cynllun Disgownt Cartref Cynnes?

Os ydych chi ar incwm isel efallai y byddwch chi'n gymwys i fanteisio ar y Cynllun Disgownt Cartref Cynnes. Mae hwn yn rhoi ad-daliad i bensiynwyr ar incwm isel a rhai cwsmeriaid eraill ar incwm isel.

Mae'r Cynllun Disgownt Cartref Cynnes yn cael ei redeg gan y cwmnïau ynni. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r rhai mwyaf gynnig yr ad-daliad hwn.

Os nad ydych chi'n bensiynwr ar incwm isel mae posibilrwydd eich bod chi dal yn gymwys ar gyfer Disgownt Cartref Cynnes. Mae gan bob cwmni ynni feini prawf gwahanol, felly cysylltwch â'ch cyflenwr i weld a ydych chi'n gymwys.

Wardeiniaid Ynni

Mae Grŵp Cynefin yn ymwneud â'r rhaglen wedi 'Wardeiniaid Ynni Cymunedol'. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo pobl i newid eu hymddygiad a chyflwyno dulliau ynni effeithlon, ac mae'r wardeiniaid yn darparu cyngor a chymorth gyda cheisiadau am gymorth ariannol.

Y Tîm Llês

Mae tîm o Swyddogion Llês sy'n cynnig cefnogaeth a chyngor mewn uchafu incwm tenantiaid, helpu gyda chymorth â chyllidebau a chyfeiriadau at asiantaethau eraill i helpu gyda negodi dyled.